**<u>Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 12ed Mai 2026 yn Neuadd Dihewyd</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes, Cadeirydd), Gerwyn Owen, Euros Davies, Glyn Davies, Alan Henson, Daniel Evans, Lynford Thomas, Lyn Williams, Wendy Lloyd Lewis,

1.**YMDDIHEURIADAU –** Cyng. Hywel Ifans, Melinda Williams, Cyng. Sir Ceris Jones

**2**. **PERSONOL**

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL - **Dim i'w datgelu

**4**. **COFNODION**

Nodwyd bod enw'r Cyng. Lynford Thomas wedi ei adael allan o restr y rhai oedd yn brsennol yn yr AGM llynedd. Yn dilyn y cywiriad hwn cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 13eg Mai, 2025 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng.Glyn Davies,ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas. Derbyniwyd yn unfrydol.

**5.. MATERION YN CODI** Dim materion i'w trafod

**6. DEWIS SWYDDOGION 2026-27**

- **i.** **Cadeirydd :** Cyng. Lynford Thomas. Cadarnahodd yr Is-Gadeirydd ei fod yn derbyn swydd Cadeirydd. Cynigiwyd gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies a derbyniwyd yn unfrydol.
- **ii.** **Is-Gadeirydd** : Cyng. Alan Henson. Cynigiwyd gan y Cyng.Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Euros Davies a derbyniwyd yn unfrydol.

Cadarnhawyd y penodiadau ac arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan y ddau.

- **iii.** **Clerc. Penderfynwyd** yn unfrydol ail-ethol y Clerc ar gyfer 2026-27. Cynigwyd gan Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas a derbyniwyd yn unfrydol. Arwyddyd y cytundeb.
- **iv.** **Archwilydd Mewnol. Penderfynwyd** ail ethol Mr. Gwyn Jones. Enwebwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson yn unol â'r Cylch Gorchwyl a'r ffî o £150.00**.**

Wrth droslgwyddo'r awennau diolchodd y Cyng. Haf Hughes i'r Clerc ac i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf a dymunwyd yn dda i'r Cyng. Lynford Thomas.

7. **CYLLID**

**i. Cyfrifon 2025-26**

Cwblhawyd y gwaith o archwilio'r cyfrifon gan yr Archwilydd Mewnol. Nodwyd y canlynol i sylw'r aelodau:

a) Bod y cyfrifon wedi eu cwblhau i safon uchel gyda'r gweithdrefiannau eu gyd wedi eu dilyn.
b) Nodwyd bod balans y banc ar ddiwedd y flwyddyn, ar ôl caniatáu am sieciau heb eu cyflwyno, yn £9,382, sydd bron yn gyfwerth â'r praesept blynyddol. Nodwyd hefyd os gwneir addasiad ar gyfer Dyledwyr a Chredydwyr sy'n weddill ar ddiwedd y flwyddyn, bod y balans yn lleihau i £6,272 sy'n cyfateb i tua 63% o'r ardoll praesept. Er bod hyn ychydig yn uchel, mae'n darparu ar gyfer unrhyw gostau annisgwyl. Dyranwyd swm o hyd at £1,700 i'w ddefnyddio o'r Cronfeydd Wrth Gefn i ariannu prosiectau cymunedol yn ystod 2026/27 a fyddai'n lleihau'r balans i lefel fwy priodol.
c) Eleni, mae'r Archwilydd Allanol wedi gofyn am y dogfennau canlynol yn ychwanegol at y datganiadau blynyddol:
    i. Adroddiad llawn yr Archwilydd Mewnol
    ii. Cylch Gorchwyl yr Archwilydd Mewnol
    iii. Esboniad ar sut mae'r Cyngor yn gosod ei gyllideb.
    iv. Copi o Adroddiad Blynyddol 2025-26

Darllenwyd y Datganiad Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu ac yn dilyn trafodaeth bellach, **penderfynwyd derbyn** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a chadarnhau cyfrifon 2025-26 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Euros Davies. Cyhoeddir y cyfrifon ar y wefan a'r hysbysiad o'u cwblhau yn y bocsus gwybodaeth erbyn y 30ain Mehefin, 2026. Bydd y cyrifon yn cael eu hanfon at yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, yn dilyn y cyfarfod hwn.

**ii.** **Lwfansau Cynhgorwyr**. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd na fyddai'r Cynghorwyr yn derbyn y lwfans a gynigir. Arwyddwyd taflenni gan y Cynghorwyr i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr am 2026-27. Cadarnhawyd bod y ffurflen Datgan Lwfansau am 2025-26 wedi ei hanfon at y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (DBCC).

**iii.** **Tâl Gweithwyr Rhan-Amser**. **Penderfynwyd** ychwanegu 2% i dâl y gweithwyr rhan-amser sef Mr. Tony Bretland a Mr Donald Barron. **Penderfynwyd** cynnig codiad o 5% i'r Clerc o Ebrill 2026. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas..

**iv.** **Gweinyddu Cyflogres**. Yn unol â chofndion cyfarfod mis Mawrth 2026 (Cyllid 8.ii) cwmni LHP fydd yn gweinyddu'r gyflogres a PAYE am y flwyddyn 2026-27 ar gost o £10.00 y mis.

**v.** **Asedau ac Yswiriant**. Yn dilyn trafodaeth, derbyniwyd ac arwyddwyd y rhestr asedau gan y Cadeirydd. Nodwyd bydd angen ychwanegu asedau plwyf

Llanwnnen i'r rhestr ym mis Mai mewn trafodaeth â'r cwmni yswiriant. Mae'r Cytundeb Tymor Hir (LTA) yn dod i ben ar 1af Mehefin 2027. Bydd rhaid ail-drafod y cytundeb y flwyddyn nesaf.

**vi.** **Rheolau Ariannol**. Trafodwyd y rheolau ariannol a ddiwygiwyd yn ystod 2019-2020 mewn ymgynghoriad â Gwyn Jones, yr Archwilydd Mewnol. Derbyniwyd yn unfrydol ar gyfer gweithredu yn ystod 2026-27. Nodwyd bod y trefniadau bancio-ar-lein yn gweithio'n yn unol â'r Rheolau Ariannol a ddiwygiwyd ac a dderbyniwyd yng nghyfarfod Ebrill 2025.

**vii.** **Rheolau Sefydlog.** Trafodwyd y rheolau sefydlog a'u derbyniwyd yn unfrydol. Nodwyd bydd angen eu diwygio pan fydd y Cyngor newydd yn cael ei ffurfio ym mis Mai 2027.

**viii.** **Cofrestr Buddiannau.** Mae'r cofrestr buddiannau yn gyfredol ac i'w weld ar y wefan.

**ix.** **Polisiau.** Nodwyd bod dogfennau llwyodraethiant y Cyngor i'w gweld ar y wefan sef:-

Iechyd a Diogelwch (a adnewyddwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ar gyfer 2026-27), Ffurflen GDPR, Polisi Preifatrwydd, Polisi Iechyd Meddwl a Lles, Polisi Hyfforddiant, Polisi ac Adroddiad Bio-Amrywiaeth 2025, Polisi'r Iaith Gymraeg ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol. Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** derbyn y polisïau.

9. **Y COD YMDDYGIAD**

Atgoffwyd pawb am reolau'r Cod Ymddygiad a'u derbyniwyd yn unfrydol.

**10. UNRHYW FATER ARALL. Dim materion i'w trafod**

**11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF – 11eg Mai, 2027 Lleoliad i'w gadarnhau,**

.